
Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr esthetig sy'n defnyddio technegau meicrobigo i wella cyflwr croen y corff a'r wyneb. Bydd yn rhaid i chi hefyd gynnal gwerthusiad ar ôl y driniaeth er mwyn gofalu bod eich gwaith chi'n gwella yn barhaus ac er mwyn gofalu am anghenion y cleient yn y dyfodol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. rhoi arferion ymgynghori, iechyd, diogelwch a glanweithdra ar waith drwy gydol y driniaeth
2. cytuno ar **amcanion y driniaeth** gyda'r cleient
3. cytuno ar strategaeth rheoli poen gan ddwyn i ystyriaeth lefel goddefedd y cleient, gan ddilyn gweithdrefnau cyfundrefnol
4. dewis dyfnder y **nodwydd** ar gyfer y **dosbarthiad croen**, **nodweddion croen**, **amcanion y driniaeth** a man y driniaeth
5. cydymffurfio gyda phrotocol y driniaeth ac addasu hyd y driniaeth i weddu i **dosbarthiad y*croen*** a **nodweddion croen *y cleient ynghyd ag *amcanion y driniaeth**
6. gwirio lles y cleient a monitro adwaith y croen drwy gydol y driniaeth
7. rhoi'r cynllun gweithredu priodol ar waith pan fo adwaith niweidiol i'r driniaeth
8. gofalu fod man y driniaeth yn lân a diogel ar ôl y driniaeth gyda chynnyrch ôl-triniaeth
9. tynnu lluniau fel tystiolaeth o'r man triniaeth yn dilyn gweithdrefnau cyfundrefnol
10. cwblhau cofnodion y cleient a'u storio yn unol â'r ddeddfwriaeth data
11. defnyddio dulliau gwerthuso a gafodd eu cytuno fel rhan o brotocol y driniaeth
12. casglu a chofnodi'r wybodaeth o adborth y cleient, cofnodion y cleient a'ch arsylliadau eich hun.
13. cynnig cyngor ac argymhellion ar lafar ac yn ysgrifenedig i'ch cleient ynghylch yr ôl ofal ar ôl y driniaeth.
14. cytuno ar unrhyw addasiadau ar gyfer triniaethau yn y dyfodol gyda'ch cleient a chofnodi deilliant eich gwerthusiad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. yr ymgynghoriad a'r gofynion iechyd, diogelwch a hylendid wrth gynnal triniaethau meicrobigo'r croen
2. y dewisiadau ar gyfer rheoli poen a'r peryglon cysylltiedig posib
3. y gofynion cyfreithiol a chyfyngiadau ar gyfer dod o hyd i, storio a defnyddio anesthetig lleol wedi'i drwyddedu ym Mhrydain
4. y mathau, diben a defnydd o offer meicrobigo ynghyd ag asiantaethau, gan ddwyn i ystyriaeth:
 - 4.1 * dosbarthiad croen
 - 4.2 * nodweddion croen
 - 4.3 amcanion y driniaeth
 - 4.4 y man ar yr wyneb neu gorff
 - 4.5 gwahanol ddyfnderoedd y nodwyddau gaiff eu defnyddio er mwyn bodloni amcanion y driniaeth
5. cyfyngiadau nwyddau ac offer caiff eu defnyddio ar gyfer triniaethau meicrobigo
6. y rheswm dros weithio'n systematig er mwyn ymdrin â man y driniaeth yn dilyn protocol y driniaeth
7. diben addasu hyd, dwysedd a dyfnder y driniaeth er mwyn dwyn i ystyriaeth:
 - 7.1 dosbarthiad croen
 - 7.2 nodweddion croen
 - 7.3 cyflyrau sy'n bodoli eisoes
 - 7.4 amcanion y driniaeth
8. **adweithiau niweidiol** posib a sut i fynd i'r afael â nhw

-
9. arwyddocâd cyfreithiol cyflwyno lluniau fel tystiolaeth o'r man triniaeth
 10. yr **anatomi a ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon hon
 11. gofynion cyfreithiol ynghlwm â chwblhau a storio cofnodion cleientiaid
 12. deilliannau disgwylledig y driniaeth yn dilyn triniaeth meicrobigo
 13. diben gweithgareddau gwerthuso
 14. sut i gasglu, dadansoddi, crynhoi a chofnodi adborth gwerthuso mewn ffordd eglur a chryno
 15. **cyngor ac argymhellion** yr ôl-ofal ar nwyddau a thriniaethau

Cwmpas/Ystod

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae disgwyl y bydd yr unigolyn sy'n cynnal y safon hon eisoes yn meddu ar y sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau sydd wedi'u hadnabod yng nghanllaw triniaeth yr ymarferwr esthetig neu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol estheteg.

Mae disgwyl y bydd yr unigolyn eisoes yn medru dangos cymhwysedd yn pennu gwrtharwyddion perthynol (cyfyngol) ac absoliwt (ataliol) ar gyfer y safonau esthetig maen nhw'n eu cynnal.

Mae disgwyl y caiff y safon hon ei gweithredu ar y cyd ag SKABA1 – Cynnal arferion gwaith diogel, hylan ac effeithiol yn ystod triniaethau esthetig ac SKABA2 – Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau esthetig.

Dylid dangos tystiolaeth o'r eitemau sydd wedi'u rhestru o dan y maes/ystod yn unol â'r math penodol o driniaeth gaiff ei gynnal.

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Amcanion y driniaeth

1. Lleihau manlinellau
2. gwella cyflwr y croen
3. gwella teimlad y croen
4. gwella llacrywdd y croen

* *

Nodwydd – yr wyneb

1. 0.5mm
2. 1.0mm

*

*

Nodwydd – y corff

1. 1.5mm
2. 2.0mm

Dosbarthiad croen

1. Graddfa Fitzpatrick
2. Llun-niwed Glogau

Nodweddion croen

1. sensitifrwydd y croen
2. tewdra'r croen
3. cyflwr y croen

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Adweithiau niweidiol

1. cleisio
2. llid
3. adwaith alergaidd
4. adwaith histamin gormodol
5. proses iachau dan fygythiad
6. pendro
7. llewygu

* *

Anatomi a ffisioleg

1. strwythur a swyddogaethau systemau'r corff a'u cyd-ddibyniaeth ar ei gilydd
2. strwythur a swyddogaeth croen ac ychwanegiadau'r croen
3. clefydau, anhwylderau a chyflyrau'r croen
4. proses heneiddio'r croen gan gynnwys effeithiau geneteg, ffordd o fyw a'r amgylchedd
5. proses iachau'r croen a chlwyfau

Cyngor ac argymhellion

1. hawliau cyfreithiol a chyfrifoldebau'r cleient a'r ymarferwr
2. cynnal triniaethau
3. disgwyliadau ar ôl y triniaethau ynghyd â graddfeydd amser cysylltiedig
4. cyfyngiadau a gwrth-weithrediadau
5. nwyddau a thriniaethau ychwanegol

Geirfa

Dosbarthiad Croen

Mae modd pennu dosbarthiad croen yn ôl lefel y melanin yn y croen a chaiff ei fesur gan ddefnyddio graddfa rifiadol Fitzpatrick. Caiff graddfa Fitzpatrick ei chategoreiddio i dair graddfa, mae'r ffenoteip Uwchfioled yn pennu sensitifrwydd y croen i Uwchfioled, y ffototeip pigmentol sy'n pennu math lliw ethnig y croen ac yn olaf y lefel risg o gancr y croen. Caiff graddfa difrod-llun Glogau ei chategoreiddio i bedwar lefel ac mae difrifoldeb y difrod i'r croen yn pennu cynllun triniaeth esthetig harddwch. Caiff y ddau ddull eu hintegreiddio gyda thechnolegau a theclynnau newydd yn aml.

Protocol y driniaeth

Cynllun yw hwn, sy'n gosod protocol penodol yn ymwneud â theclynnau a thriniaethau, gan adnabod gwiriadau a phrofion cyn y driniaeth, y modd gaiff y driniaeth ei chynnal, newidynnau derbyniol, safleoedd â gaiff eu defnyddio, y deilliant disgwylidig a phryd dylid addasu neu roi'r gorau i'r driniaeth.

Cysylltiadau â SGC eraill

SKABA1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10

SKABA11

Ieuangu'r croen gan ddefnyddio triniaethau meicrobigo'r croen



| | |
|---------------------------|--|
| Datblygwyd gan | SkillsActive |
| Dyddiad cymeradwyo | 04 Maw 2019 |
| Dyddiad Adolygu Dangosol | 01 Ion 2021 |
| Dilysrwydd | Ar hyn o bryd |
| Statws | Gwreiddiol |
| Sefydliad cychwynnol | SkillsActive |
| RCU gwreiddiol | SKABT35 |
| Galwedigaethau perthnasol | Therapydd Harddwch |
| Cyfres/Set | Estheteg Harddwch |
| Geiriau Allweddol | dermapen, meicrobigo'r croen , adfywio croen, pigo'r croen |